Mae cwmni cyfieithu Bla yn dymuno penodi uwch gyfieithydd / golygydd profiadol i ymuno â'r tîm gweithgar i gynorthwyo gyda gwaith cyfieithu'r cwmni gyda phwyslais cryf ar olygu a phrawfddarlllen. Mae hon yn swydd lawn amser yn ddelfrydol, ac wedi ei lleoli yn swyddfeydd y cwmni yn Llangefni. Croesawir ceisiadau gan ymgeiswyr llai profiadol hefyd ond sy'n dangos gallu naturiol yn y maes.

Rhagor o wybodaeth ar gael gan Alun Gruffydd

| | |
|---|---|
| CYFLOGWR: | Cwmni Cyfieithu Bla |
| SWYDD: | Cyfieithydd / Golygydd |
| CYFLOG: | Hyd at £31,000 yn ddibynnol ar brofiad |
| | |
| DYDDIAD CAU: | 20//10/2023 |
| MANYLION CYSWLLT: | Alun Gruffydd |
| | alun@bla-translation.co.uk |
| | 01247 725730 07920052818 |
| MANYLION Y SWYDD: | Isod |

**SWYDD DDISGRIFIAD – UWCH GYFIEITHYDD / GOLYGYDD**

| | |
|---|---|
| **Cwmni:** | **Bla** |
| **Teitl y Swydd:** | Uwch Gyfieithydd / Golygyddd |
| **Cyflog**: | hyd at £31,000 yn ddibynnol ar brofiad |
| **Oriau Gwaith:** | 9am - 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener, 37.5 awr yr wythnos (ond gellir trafod) |
| **Lleoliad:** | Llangefni |
| **Atebol i:** | Cyfarwyddwr |
| **Gwyliau:** | 25 diwrnod y flwyddyn pro rata yn ogystal â gwyliau banc ac eraill cenedlaethol, pro rata |
| **Pensiwn**: | Cynllun Pensiwn NEST os yw'r deilydd yn gymwys |

**Bla Translation Ltd**

Mae'n gwmni preifat a sefydlwyd yn 2013 ac sydd wedi tyfu'n raddol ers hynny gyda nifer helaeth o gleientiaid bellach yn defnyddio'r gwasanaeth. Lleolir y swyddfa yn xx

**Cyfrifoldebau Cyffredinol y Swyddog**

Mae'r cwmni'n darparu gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig amrywiol, a dderbynnir bron yn gyfan gwbl dros e-bost. Daw'r gwaith o wahanol ffynonellau a sectorau, gan gwblhau hysbysebion bachog hyd at adroddiadau swmpus.

Bydd y swyddog yn gweithio ar dasgau amrywiol, gan dderbyn gwaith dyddiol i'w gwblhau yn y swyddfa ar gyfrifiadur safonol. Fel Uwch Gyfieithydd, bydd y swyddog hefyd yn goruchwylio a gwirio gwaith eraill yn y swyddfa, yn enwedig cyfieithwyr llai profiadol.

**Cyfrifoldebau Penodol y Swyddog**

Cwblhau cyfieithiadau o Saesneg i Gymraeg i'w dychwelyd yn ganolog yn brydlon a chywir ac wedi'u darllen a'u golygu cyn eu cwblhau.

Goruchwylio a phrawfdarllen gwaith cyfieithwyr eraill llai profiadol o fewn y cwmni a chynnig arweiniad a chymorth i'r cyfieithwyr hynny yn ôl y galw, yn ogystal â gwaith cyfieithwyr allanol.

Sicrhau bod y gwaith a gynhyrchir yn dilyn ffurf a dyluniad yr iaith wreiddiol gan osgoi unrhyw ddryswch wrth ddychwelyd y gwaith i'r cleient.

Ymgymryd â gwaith o Gymraeg i Saesneg yn achlysurol.

Ymgymryd â gwaith cyfieithu ffeiliau sain yn achlysurol e.e. cyfweliadau, sgriptiau, yn ogystal â gwaith is-deitlau.

Bod yn fodlon cwblhau hyd at 2,500 o eiriau'r dydd ac ychydig yn fwy na hynny yn ôl y galw.

Cynorthwyo gyda'r gwaith canolog o ddelio â cheisiadau cyfieithu a ddaw i mewn dros e-bost ac ymholiadau dros y ffôn.

Tasgau eraill cyffredinol o fewn swyddfa brysur yn ôl y galw.

**Rhinweddau'r Swyddog**

i. Yn aelod neu yn anelu at fod yn aelod cyflawn o leiaf o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

ii. Y gallu i oruchwylio a phrawfddarllen gwaith eraill yn gywir ac yn drylwyr.

iii. Gradd yn y Gymraeg yn ddymunol.

iv. sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

v. sgiliau cyfieithu hyderus a phrofiad da o waith cyfieithu.

vi. gwybodaeth ieithyddol dda am y Gymraeg ac am gyfeirlyfrau ac arfau iaith (gramadeg, geiriaduron, rhestrau termau, rhestrau enwau lleoedd ac ati).

vii. gwybodaeth eang am sefyllfa'r Gymraeg ac am Gymru.

viii. sgiliau gweinyddol da.

ix. sgiliau cyfrifiadurol cyffredinol a phenodol (gan gynnwys pecynnau Microsoft Office, ffeiliau pdf ac ati).

x. yn ddymunol hefyd yw profiad o weithio ar feddalwedd a phecynnau cof cyfieithu 'CAT'.

Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i'r swyddog ddangos ei fod ef neu hi yn medru gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.

**MANYLEB UNIGOLYN**

| **1.0 Cymwysterau** | | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|---|
| (a) | Gradd yn y Gymraeg | | ✓ |

| **2.0 Cymwysterau Arbenigol** | | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|---|
| (a) | Aelod Sylfaenol o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru | | ✓ |
| (b) | Aelod Cyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru | | ✓ |

| **3.0 Gwybodaeth a Phrofiad** | | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|---|
| (a) | Gwybodaeth ieithyddol dda am y Gymraeg ac am gyfeirlyfrau ac arfau iaith | ✓ | |
| (b) | Gwybodaeth eang am sefyllfa'r Gymraeg ac am Gymru | ✓ | |
| (c) | Profad o weithio ar feddalwedd a phecynnau cof cyfieithu 'CAT' | | ✓ |

| **4.0 Sgiliau a Phriodoleddau** | | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|---|
| (a) | Sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn y Gymraeg a Saesneg | ✓ | |
| (b) | Sgiliau cyfieithu hyderus a phrofiad da o o gyfieithu mewn sawl cyfrwng | ✓ | |
| (c) | Sgiliau gweinyddol da | ✓ | |
| (ch) | Sgiliau cyfrifiadurol cyffredinol a phenodol (gan gynnwys pecynnau Microsoft Office, ffeiliau pdf ac ati). | ✓ | |
| (d) | Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm | ✓ | |

✓